# ATODIAD A – PENNOD 7.1 CYMUNEDAU DIOGEL, IACH, NODEDIG A BYWIOG

## Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

### PS 1 – Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 763 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | 7.1.1 | Gwrthwynebu | Mae Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn cytuno y dylid rhoi pwyslais ar gefnogi cymunedau, gan gynnwys yn arbennig rhoi uchafiaeth i bolisïau sy'n cynnal ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Mae YDCW yn bryderus bod y rhan fwyaf o'r polisïau 'cymunedol' eraill a geir yn ymwneud â darparu isadeiledd ffisegol gan gynnwys ffyrdd. Er bod y rhain yn berthnasol nid ydynt yn mynd i'r afael â'r canfyddiad fod tuedd tuag at ganoli mwy ar bolisïau a phenderfyniadau cynllunio yn lleihau'r dylanwad sydd gan gymunedau bychain gwledig dros eu hamodau byw lleol a datblygiad eu cymunedau, a bod ymgynghoriadau lleol gwirioneddol yn wan a bod cynrychiolaeth leol trwy gynghorau cymuned yn aneffeithiol. Mae angen rhoi mwy o sylw i fecanweithiau i gynyddu dylanwad cymunedau bychain gwledig dros eu hamodau byw lleol a datblygiad eu cymunedau. | **Dim yn derbyn** – Cafodd y Cynllun Adnau ei baratoi yn dilyn sawl cyfnod cyfranogiad ac ymgynghoriad cyhoeddus, a roddodd gyfle i gymunedau fynegi barn. Mae gorfodi bod cynghorau cymuned i gyfrannu i ymgynghoriadau cyhoeddus yn fater du hwnt i gylch gorchwyl proses paratoi'r Cynllun.<br><br>Mae'r Cynllun yn darparu cyfres o bolisiau a chynigion a fydd yn sail i asesu amrediad o ddatblygiadau yn ystod oes y Cynllun. Credir eu bod yn hyrwyddo datblygiad a fydd er lles cymunedau gwledig.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 72 | Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710] | PS1 | Cefnogi | Cymeradwyir bod PS1 yn nodi bod modd gwrthod cynigion ar sail eu potensial i achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned.<br><br>Dylai canlyniadau Cyfrifiad 2011 parthed newidiadau mewn proffil iaith cymuned gael eu hystyried yn dystiolaeth ar gyfer dod i farn ar botensial cynigion i newid cymeriad ieithyddol.<br><br>Dylai effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith fod yn ystyriaeth cynllunio gadarn yng Ngwynedd, a thu hwnt. | **Nodi'r sylw cefnogol** – Bydd proffiliau aneddleoedd a fydd yn cael eu cyhoeddi fel Papur Testun ychwanegol ar gyfer y cam cyflwyno yn cofnodi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Gallir diweddaru'r wybodaeth ar adegau priodol pan ddaw gwybodaeth mwy cyfredol am yr aneddleoedd i law.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 73 | Adran Cynllunio a Thai, Cyngor Sir Ddinbych (Angela Loftus) [2719] | PS1 | Cefnogi | Cefnogi cynnwys polisi yn y Cynllun | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 125 | Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550] | PS1 | Cefnogi | Dywed 2 "Gwrthod cynigion fyddai oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned' a 4 "Annog defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd." Rydym yn llwyr gefnogi'r polisïau hyn. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 127 | Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) | PS1 | Gwrthwynebu | Ystyrir bod pwynt 2 yn rhy feichus ac mae angen rhagor o eglurhad yn ei gylch. Byddai angen profi ac asesu'r cyfryw asesiad a châi hyn ei wneud fel arfer | **Derbyn** - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisïau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | [1470] | | | trwy ryw fath o 'asesiad ar effaith'. Yn hytrach, dylai'r polisi osod trothwyon uwchlaw'r hyn y mae angen asesiad ar eu cyfer. Mae angen meintioli'r geiriau 'maint a graddfa'. Wrth osod trothwy ar gyfer datblygu tai rhaid cymryd gofal i beidio â'i osod yn rhy isel gan y bydd hyn yn cadw adeiladwyr bychain draw oherwydd y gwaith ychwanegol a'r gost sy'n gysylltiedig â'r datblygiad newydd.<br><br>Dileu pwynt 2 neu ail-eirio er mwyn ychwnaegu eglurder fel yr uchod. | Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglyn a beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol.<br><br>**Newid â Ffocws NF 15, NF19, NF21**<br><br>Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun. |
| 279 | Mr Aled Evans [2646] | PS1 | Gwrthwynebu | Yr iaith Gymraeg<br><br>Cyfyngu ar ddatblygiadau mawr yn gyffredinol. | **Dim yn derbyn** – Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 339 | Miss Ffion Jones [2856] | PS1 | Gwrthwynebu | Dyweder bydd y Cyngor yn gwrthod cynigion a fydd oherwydd eu graddfa, maint neu leoliad yn achosi difrod arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned. Mae'n fwriad adeiladu stadau mawr o dai yn ein pentrefi a threfi lleol. Heb amheuaeth fe fydd hyn yn newid cymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymunedau. Heb astudiaeth addas, pwy a ŵyr pwy fydd yn prynu'r tai newydd - ac yn fwy pwysig pwy fydd yn gallu fforddio nhw? Mae cyflogau pobl ifanc lleol yn isel iawn ac mae llawer yn brwydro i gael morgais. Bydd llenwi'r stadau newydd yma efo mewnfudwyr di-gymraeg yn siŵr o gael ardrawiad andwyol ar ein cymunedau ac iaith. | **Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 392 | Dr Richard Roberts [2938] | PS1 | Gwrthwynebu | Ni ellir cysoni 'SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg' a tharged tai o 7902 (sy'n seiliedig ar fewnfudo) yn wyneb rhagolygon twf poblogaeth naturiol statig ac yng ngoleuni canlyniadau iaith Cyfrifiad 2011.<br>Gellid nodi'n onest effeithiau niweidiol tebygol y CDLl ar y Gymraeg, gan ymhelaethu ar dderbynioldeb yr effeithiau niweidiol oherwydd y flaenoriaeth a roir i ryw amcan strategol arall. Byddai hynny'n rhagdybio dadansoddiad mwy soffistigedig o flaenoriaethau mewn sefyllfa real (awgrymir yn naïf yn fersiwn adnau'r CDLl fod yr holl amcanion yn gydnaws a'i gilydd). Dewis arall fyddai ailystyried nifer y tai yr argymhellir eu codi yng nghyfnod y cynllun. | **Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro’r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a’r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy’n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy’n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae’n rhoi ffigwr sy’n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a’i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 793 | Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988] | PS1 | Cefnogi | Cefnogir Polisi PS1. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 794 | Tom Brooks [3034] | PS1 | Cefnogi | Rwy'n cefnogi PS1 ar yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig yn enwedig pan noda "Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Gellir sicrhau hyn trwy:<br>1. Ddefnyddio mecanweithiau priodol i sicrhau y darperir mesurau addas sy'n lleddfu effeithiau negyddol neu i sicrhau y gwneir cyfraniad atynt" | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 797 | Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541] | PS1 | Gwrthwynebu | Mae'r Cynllun yn cyfeirio fod yn rhaid i bopeth fod yn ddwyieithog, oni ddylai hyn fod "Y Gymraeg" neu ddwyieithog. Rhaid cofio ein bod yng nghadarnle'r iaith Gymraeg ym Mhen Llyn. | **Dim yn derbyn** - Noder y sylw. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, gyda dwy iaith swyddogol. Mae'r Polisi yn cydnabod y safonau a ddisgwylir i gyrff cyhoeddus gyrraedd, ac yn annog busnesau masnachol preifat i roi run statws i'r Gymraeg are u arwyddion.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 800 | Jina Gwyrfai [3092] | PS1 | Gwrthwynebu | Hyrwyddo'r iaith yn egwyddor sylfaenol? Ac yn yr un gwynt mae yn son am 'liniaru effeithiau negyddol'. Nid yw'r iaith a ddefnyddir yn ddigon cryf - annog' arwyddion dwyieithog, 'annog' defnydd o lefydd Cymraeg. Nid yw 'annog' yn hyrwyddo cadarn. Y casgliad yw nad yw'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o'r Cynllun Adnau. Does dim tystiolaeth gadarn yn dangos eich gwir gonsyrn dros y Gymraeg Rheidrwydd defnyddio'r iaith Gymraeg gyda'r Cynghorau'n cydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i orfodi enwau ac arwyddion, asesiad effaith ar yr iaith yn orfodol ar bob un datblygiad, pob un datblygiad i fod yn nwylo pobl leol.<br><br>Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn orfodol. Cynghorau yn cydweithio gyda'r Comisiynydd Iaith i ymofyn am enwau/arwyddion Cymraeg; Asesiad Ardrawiad Iaith yn ofynnol ar gyfer pob datblygiad. Dylai pob dyblygiad fod ar gyfer pobl leol h.y. fforddiadwy. | **Derbyn yn rhannol** - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisiau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Bydd Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus.<br><br>Cytunir byddai cryfhau'r eirfa yn rhoi mwy o sicrwydd ynglŷn â disgwyliadau'r Cynghorau o ran defnyddio arwyddion dwyieithog.<br><br>**Argymhelliad** - diwygio'r maen prawf i ddweud 'sicrhau' yn lle 'annog'.<br><br>**Newid â Ffocws NF 15, NF16, NF19, NF21**<br><br>Er mwyn gwella eglurder y Cynllun. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 874 | Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036] | PS1 | Cefnogi | Mae SO1 yn ceisio "diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei defnydd fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol". Rydym yn cefnogi PS1 yn enwedig lle mae'n cofnodi "Bydd y Cynghorau yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Caiff hyn ei gyflawni trwy: ddefnyddio mecanweithiau priodol i sicrhau y darperir mesurau addas sy'n lleddfu effeithiau negyddol neu i sicrhau y gwneir cyfraniad atynt." | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 885 | Mr John Tripp [252] | PS1 | Gwrthwynebu | Cofio'r angen i warchod yr iaith. Dim digon yn cael ei wneud. Cyswllt i Agenda 21 Lleol. | **Dim yn derbyn** - Yn unol â'r Cynllun Integredig Sengl mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisiau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 937 | Cyng/Counc Alwyn Gruffydd | PS1 | Gwrthwynebu | Mae'r Polisi Strategol i'w groesawu ond mae angen edrych ar y Cynllun yn fwy cydlynol i sicrhau y gweithredir y polisi hwn i sicrhau nad oes elfennau | **Derbyn yn rhannol** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | [381] | | | eraill o'r cynllun, fel y polisi ar y nifer o dai yn milwrio yn ei erbyn. Oherwydd natur unigryw'r Sir mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth bwysig yn y drefn gynllunio. Credir bod angen ymestyn y ffiniau er mwyn amddiffyn y Gymraeg a'n cymunedau. | yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol.<br><br>**Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21**<br><br>Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun. |
| 955<br><br>958 | Menter Môn (Helen Thomas) [1615]<br><br>Hunaniaith (Debbie A. | PS1 | Gwrthwynebu | Mae'r Polisi Strategol i'w groesawu ond mae angen edrych ar y Cynllun yn fwy cydlynus i sicrhau y gweithredir y polisi hwn i sicrhau nad oes elfennau eraill o'r cynllun, fel y polisi ar y nifer o dai yn milwrio yn ei erbyn. | **Derbyn yn rhannol** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Williams Jones) [3037] | | | Oherwydd natur unigryw'r Sir mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth bwysig yn y drefn gynllunio. Credir bod angen ymestyn y ffiniau er mwyn amddiffyn y Gymraeg a bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg yng nghymunedau Môn a Gwynedd. Mae angen i'r Cynllun Adnau adlewyrchu'r ffaith fod y Gymraeg yn thema lorweddol ar draws yr holl Gynllun. Mae angen eglurder o'r modd y bwriedir diogelu'r iaith Gymraeg. | Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglyn a beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus.<br><br>Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.<br><br>Er hynny, credir bod sail i wneud rhai newidiadau â ffocws i amlygu'n well sut fydd y Cynllun yn hyrwyddo datblygiad, a fydd ar y cyd a mesurau eraill, er lles yr iaith Gymraeg. Noder hefyd cynnwys dogfennau cefndir sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.<br><br>Diwygio geiriad i amlygu'n well sut bwriedir diogelu'r |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | iaith Gymraeg.<br><br>**Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21**<br><br>Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun |
| 1115 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | PS1 | Gwrthwynebu | Mae Horizon yn credu ei bod, yn absenoldeb y Canllawiau Cynllunio Atodol (sydd i ddod, fel y dywedwyd ym mharagraff 7.1.4), yn aneglur sut bydd y prawf polisi hwn yn cael ei ddefnyddio. Fel mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae perygl i'r elfen hon o'r Polisi Strategol ddod yn rhwystr i dwf economaidd a dyheadau eraill yn y Cynllun. Barn Horizon ydi bod angen newid y paragraff i gynnwys mwy o hyblygrwydd ac egluro, ymysg pethau eraill, beth ydi ystyr "andwyo sylweddol", y ffactorau perthnasol wrth asesu andwyo posibl, a sut bydd amcanion polisi eraill yn y Cynllun yn cael eu pwyso yn erbyn yr amcan polisi hwn. | **Derbyn** - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisiau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglyn a beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol.<br><br>**Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun. |
| 1432 | Cyngor Tref Penrhyndeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261] | PS1 | Gwrthwynebu | Mae Cyngor Tref Penrhyndeudraeth o'r farn nad yw'r ystyriaeth a roir yn y Cynllun hwn i'r strategaeth gymunedol (Prawf Cadernid C4) yn llesol i'r gymuned hon, hynny yw:- os na fydd y tai a gaiff eu codi yn cael eu prynu gan drigolion y ganolfan, y mae pob siawns y bydd yr adeiladwyr yn eu gwerthu i bwy bynnag â'i myn e.e. mewnfudwyr, a byddai hynny'n golygu gostyngiad arall yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. | **Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 1438 | Cyng/Counc Gareth Thomas [402] | PS1 | Gwrthwynebu | Rwyf o'r farn nad yw'r ystyriaeth a roir yn y Cynllun hwn i'r strategaeth gymunedol (Prawf Cadernid C4) yn llesol i'r gymuned hon, hynny yw:-<br>os na fydd y tai a gaiff eu codi yn cael eu prynu gan drigolion y ganolfan, y mae pob siawns y bydd yr adeiladwyr yn eu gwerthu i bwy bynnag a'i mynn e.e. | **Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mewnfudwyr, a byddai hynny'n golygu gostyngiad arall yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Felly ni ddylid adeiladu tai ac eithrio ar gyfer anghenion lleol sef cymuned Penrhyndeudraeth. | Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 107 | CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760] | 7.1.4 | Cefnogi | Argymhelliad LLC i ystyried effaith ar y Gymraeg ym Mangor.<br>Darn o waith wedi ei gwblhau yn edrych ar wardiau ar draws Gwynedd, felly yn edrych ar Hirael ond nid ar Fangor fel endid. Angen ymchwil manwl ar yr iaith a chynllunio ym Mangor er mwyn darparu gwybodaeth i'r broses gynllunio, a'r effaith ar y Gymraeg | **Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim newid** |
| 120 | Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550] | 7.1.4 | Gwrthwynebu | Dywedir yma "Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun." Pa bolisïau yw'r rhain? Pam na'u rhestrwyd? Dywedir ymhellach hefyd "Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach am y mater." Credwn y dylai'r canllawiau hyn fod yn rhan weithredol o'r Cynllun gwreiddiol. | **Derbyn yn rhannol** - Dylid rhoi sylw i Dabl 7 yn rhan 5 y Cynllun, sydd yn darparu rhestr o bolisïau a fydd yn cefnogi'r amcanion unigol. Er hynny, cytunnir y byddai newid i'r rhan yma o'r Cynllun yn gwella egurder. Nid yw CCA yn rhan o gynlluniau datblygu lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio'r paragraffau cyn y polisi i roi trosolwg o bolisiau eraill perthnasol.<br><br>**Newid â ffocws NF14** |

## Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwr

### Cyflwyniad

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1433<br><br><br><br><br>1454 | Cyngor Tref Penrhyddeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261]<br><br>Cyng/Counc Gareth | 7.1.5 | Gwrthwynebu | Mae rhwydwaith / isadeiledd presennol Penrhyndeudraeth a Minffordd e.e. ffyrdd, parcio,gwasanaethau meddygon teulu dan bwysau. Am<br>● nad oes dir cyfagos i ymestyn yr ysgol bresennol;<br>● y byddai cynnydd yn nifer y cleifion yn cynyddu'r | **Dim yn derbyn**<br><br>Mae Polisi Strategol PS2 yn sicrhau y bydd disgwyl i gynigion sicrhau bod darpariaeth ddigonol o isadeiledd er mwyn bod yn dderbyniol. Hefyd, mae Polisi ISA1 yn sicrhau |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | Thomas [402] | | | pwysau, sydd eisoes yn sylweddol, ar feddygon teulu;<br>● am y bydd y cynnydd sylweddol yn y drafnidiaeth drwy Benrhyndeudraeth pan gwblheir y Bont Briwet newydd yn sicr o arafu symudiad cerbydau ar hyd y briffordd drwy'r pentref,<br>ni ddylid disgwyl iddynt allu ymdopi â 152 o dai ychwanegol. Bydd ymdopi â 59 yn hen ddigon.<br>Y mae'r Rheoliadau sy'n caniatáu i awdurdodau godi ar ddatblygwyr i '(d)defnyddio arian (ar gyfer ) amrediad eang o isadeiledd yn amherthnasol yng nghyswllt yr uchod. | y bydd y datblygwr yn cyflwyno ceisiadau am gyfraniadau ariannol i sicrhau isadeiledd hanfodol oddi ar y safle os nad oes modd sicrhau isadeiledd hanfodol ar y safle.<br><br>Hefyd, mae Dangosydd D8 ar gyfer Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau y bydd y Cynllun yn monitro unrhyw faterion sy'n codi ar safleoedd sydd wedi'u dynodi yn y Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau ac yn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 1118<br>1119<br>1120 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | 7.1.7 & 7.1.8 & 7.1.9 | Gwrthwynebu | Mae Horizon yn credu y dylid gwella eglurdeb y paragraffau hyn. Dylid dangos yn llawn sut bydd y Cynghorau yn rheoli cyfyngiadau cronni wrth symud ymlaen ar ôl 6 Ebrill 2015 gan fod hyn yn hollbwysig i ddatblygwyr, yn cynnwys Horizon, fedru ei ddeall. Mae Horizon yn gwneud sylwadau pellach ar y termau efo arian Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r defnydd o'r arian hwnnw, cytundebau adran 106 a buddion cymunedol yn gysylltiedig a Pholisiau PS2 ac ISA1. | **Derbyn**<br><br>Cytunir y dylid diwygio'r paragraffau hyn yn unol â'r awgrym, er mwyn i'r Cynllun fod yn fwy clir a chywir.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio paragraffau 7.1.8-7.1.10 i nodi'r cyfyngiadau ar gyfuno o ran CIL.<br><br>**Newid â Ffocws NF17** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 416 | Rheilffordd Ucheldir Cymru (Mr Graham Farr) [254] | 7.1.9 | Gwrthwynebu | Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith andwyol bosib Ardoll Seilwaith Cymunedol ar hyfywedd datblygiadau newydd megis yr un y gallai'r Cwmni ei gynnig yn unol â Safleoedd Arfaethedig cyfeirnodau cyflwyniad: SP552 ac SP870 (copïau o ffurflenni ynghlwm). | **Nodi'r sylw**<br><br>Mesur gwirfoddol yw cyflwyno trefn CIL a dim ond os bydd tystiolaeth gadarn i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y bydd yn cael ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau'n cynnal yr ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 - 2017. Yn y cyfamser, ac os na fydd y farchnad yn hyfyw, bydd y Cynghorau'n parhau i geisio cyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau Adran 106 os ydynt yn bodloni'r profion statudol sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau CIL.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |

**PS2 – Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 144 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI STRATEGOL PS2 | Gwrthwynebu | Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pha rwymedigaethau cynllunio. Wrth ystyried nodweddion penodol echdyniad mwynau, ni ddylai datblygu mwynau fod yn destun CIL. | **Dim yn derbyn**<br><br>Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau.<br><br>Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth fanylach ar drothwyon a fformwlâu a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy'n berthnasol i wahanol fathau o ddatblygiadau.<br><br>Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw’r gwrthwynebydd. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim newid** |
| 119 | Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470] | POLISI STRATEGOL PS2 | Gwrthwynebu | Gwneud i ffwrdd â'r ail frawddeg gan nad oes angen hon yn y polisi a dylai fod yn y testun cefnogi. Wrth gyfeirio at symiau a gyfnewidiwyd, mae angen i hwn hefyd gyfeirio at fabwysiadu gan nad oes modd cael un heb y llall. Mae angen diffinio 'Seilwaith Hanfodol'. Mae angen eglurder rhwng seilwaith megis gwasanaethau a ffyrdd sy'n hanfodol a chyfraniadau eraill Datblygwyr fel y'u rhestrir ym mholisi ISA1 y dylid negodi yn eu cylch yn seiliedig ar effaith /hyfywedd y cynllun ac na ddylent fod yn 'ddisgwyliedig'.<br><br>Dileu yr ail frawddeg. Cynnwys cyfeiriad tuag at fabwysiadu. Diffinio 'isadeiledd anghenrheidiol'. | **Dim yn derbyn**<br><br>Ystyrir y dylid cynnwys cyfeiriad at daliadau cynnal posibl yn y polisi er mwyn sicrhau eglurder ac i sicrhau bod modd dehongli'r polisi’n rhwydd.<br><br>Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth ynghylch â’r lefelau trothwy a’r fformiwlas fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy’n benodol i fathau gwahanol o dddatblygiadau.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio’r Polisi i adlewyrchu’r angen i gyfeirio at y gofyn posib am fathau gwahanol o isadeiledd er mwyn galluogi i gynllun fynd ymlaen yn lle ‘isadeiledd hanfodol’.<br><br>**Newid â Ffocws NF18** |
| 145 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI STRATEGOL PS2 | Gwrthwynebu | Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pha rwymedigaethau cynllunio. | **Dim yn derbyn**<br><br>Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | O ystyried nodweddion penodol cloddio mwynau, ni ddylai datblygiadau mwynau fod yn destun ASC. | alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau.<br><br>Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth ynghylch â'r lefelau trothwy a'r fformiwlas fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy'n benodol i fathau gwahanol o dddatblygiadau.<br><br>Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC.<br><br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |
| 1088 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] | POLISI STRATEGOL PS2 | Gwrthwynebu | Mae ANC yn dymuno tynnu sylw at fod ansicrwydd a fydd capasiti digonol o adnodd dŵr ar gael yn ystod gweithrediad yr Wylfa Newydd arfaethedig. Gallai'r gofynion i gynyddu capasiti dŵr gael effeithiau ar yr amgylchedd. Dylai eich Awdurdod chi fod yn ymwybodol y gallai fod angen i'r newidiadau mewn beth mae'r CDLl yn canolbwyntio arno, neu ei waith yn monitro'r cynllun, fod yn ystyried unrhyw wybodaeth wedi'i diweddaru sy'n dod oddi wrth Horizon o ran y gofynion am gapasiti dŵr. | **Nodi'r sylw**<br><br>Bydd capasiti'r adnoddau dŵr yn cael ei ystyried fel rhan o Orchymyn Caniatad Datblygiad ar gyfer prosiect Wylfa Newydd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |
| 1122 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI STRATEGOL PS2 | Gwrthwynebu | Nid ydi bwriad y Cynghorau'n eglur o ran ehangder y polisïau hyn. Roedd y newidiadau'n dangos yn eglur bod rhaid i rwymedigaethau adran 106 y gofynnwyd amdanynt gael eu gosod yn unol efo'r profion rheoleiddio h.y. rhaid i gyfraniadau ateb profion rheoliad 122 y Rheoliadau Ardoll Cymunedol 2010 sef bod:<br>* yn angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio; | **Derbyn**<br><br>Cytunir y bydd y newid sy'n cael ei argymell yn gwneud y polisi'n fwy clir a chywir yn unol â'r rheoliadau.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio'r polisi er mwyn cyfeirio at y gofyniad posibl am daliadau statudol. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | * yn ymwneud yn uniongyrchol efo'r datblygiad; a hefyd<br>* yn ymwneud yn deg a rhesymol efo graddfa a math y datblygiad.<br>Dylai'r polisïau hyn gael eu hailystyried i wneud hyn yn eglur. | **Newid â Ffocws NF18** |

**ISA 1 – Daroariaeth Isadeiledd**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 146<br><br>147 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]<br><br>Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | Polisi ISA1 | Gwrthwynebu | Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pha rwymedigaethau cynllunio.<br><br>O ystyried nodweddion penodol cloddio mwynau, ni ddylai datblygiadau mwynau fod yn destun ASC. | **Dim yn derbyn**<br><br>Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth fanylach ynghylch pa fathau o ddatblygiadau fydd yn dod o dan ba rwymedigaethau cynllunio. Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |
| 303 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | Polisi ISA1 | Cefnogi | Rydym yn croesawu cynnwys cadwraeth natur yn rhestr y pwrpasau y gellid ceisio cyfraniadau iddynt | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 439 | Rheilffordd Ucheldir Cymru (Mr Graham Farr) [254] | Polisi ISA1 | Gwrthwynebu | Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith andwyol y gallai unrhyw ofyn yng nghyswllt cyfraniadau datblygwyr ei gael ar hyfywedd datblygiadau newydd y gallai'r Cwmni eu cynnig yn unol â chyflwyniadau Safleoedd Arfaethedig cyfeirnodau: SP552 a SP870 (Copïau o'r ffurflenni ynghlwm). Dileu'r frawddeg "Os yw cynnig...datblygiad gael ei ariannu." | **Derbyn yn Rhannol**<br><br>Pan fo perygl na fydd datblygiad yn cael ei wireddu o ganlyniad i faint y rhwymedigaethau cynllunio a chostau eraill, efallai y bydd angen astudiaeth hyfywedd. Dylai hyn gynnwys manylion am amgylchiadau penodol y safle a'r datblygiad arfaethedig sydd o dan sylw. Wrth asesu hyfywedd safle penodol mae angen dadansoddiad manylach nag ar lefel y cynllun. Cytunir y dylid egluro hyn yn yr esboniad i'r Polisi. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Bydd rhagor o ganllawiau yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio'r eglurhad i'r Polisi er mwyn egluro bydd hyfywdra'n cael ei ystyried mewn cam rheoli datblygu, er mwyn ychwanegu eglurder.<br><br>**Newid â Ffocws NF20** |
| 469 | Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470] | Polisi ISA1 | Gwrthwynebu | Nid oes cyfeiriad at yr angen i asesu hyfywedd y datblygiad er mwyn rhoi'r cyfraniadau y gofynnwyd amdanynt a hefyd yr angen i benderfynu rhwng gofynion cystadleuol nad oes modd i'r datblygiad eu darparu i gyd. Mae angen nodi'r gwahaniaeth rhwng seilwaith gofynnol megis gwasanaethau a chyfraniadau A106 eraill. | **Derbyn**<br><br>Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau. Yn ogystal, bydd y flaenoriaeth a roddir i wahanol fathau o isadeiledd yn amrywio yn ôl y maint, y math a'r polisïau penodol sy'n berthnasol i'r datblygiad. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y gofyniad ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio yn ceisio mynd i'r afael â materion allweddol |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | y Cynllun, gyda darparu tai fforddiadwy yn fater o'r pwys mwyaf.<br><br>Pan fo perygl na fydd datblygiad yn cael ei wireddu o ganlyniad i faint y rhwymedigaethau cynllunio a chostau eraill, efallai y bydd angen astudiaeth hyfywedd. Dylai hyn gynnwys manylion am amgylchiadau penodol y safle a'r datblygiad arfaethedig sydd o dan sylw. Wrth asesu hyfywedd safle penodol mae angen dadansoddiad manylach nag ar lefel y cynllun. Cytunir y dylid egluro hyn yn yr esboniad i'r Polisi. Cytunir y dylid egluro hyn yn yr esboniad i'r Polsi<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Newid yr esboniad i'r Polisi i adlewyrchu'r angen i ystyried hyfywedd a nodi y bydd yr angen i flaenoriaethu yn amrywio o safle i safle, yn amodol ar ystyried y blaenoriaethau corfforaethol. Hefyd, newid y Polisi i wahaniaethau rhwng isadeiledd hanfodol / galluogi, ac isadeiledd angenrheidiol.<br><br>**Newid â Ffocws NF20** |
| 511 | Gwasanaeth | Polisi ISA1 | Gwrthwynebu | Dylid ystyried dehongli, cadwraeth a gwella | **Derbyn** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959] | | | nodweddion hanesyddol, henebion, adeiladau neu elfennau tirwedd yn y rhestr hon | Bydd y gofynion isadeiledd yn amrywio mewn gwahanol leoliadau, ac yn dibynnu ar raddfa a natur y datblygiad arfaethedig. Efallai y bydd angen isadeiledd i hwyluso datbygiad, neu i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol. Gall gynnwys elfennau o'r rhestr a gynhwysir fel rhan o'r Polisi. Ni fwriedir i'r rhestr isod fod yn gynhwysfawr, na chyfyngu ar y dewisiadau, ond mae'n awgrymu beth yw amrediad yr isadeiledd a allai fod yn angenrheidiol.<br><br>Fodd bynnag , byddai cynnwys y nodweddion sy'n cael eu hawgrymu gan y gwrthwynebydd, yn y polisi, yn sicrhau cywirdeb.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ychwanegu pwynt bwled ychwanegol at y polisi.<br><br>**Newid â Ffocws NF19** |
| 697 | Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645] | Polisi ISA1 | Gwrthwynebu | Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod cyfraniadau ariannol neu isadeiledd yn cael eu darparu gan gynigion datblygu pan fo angen er mwyn eu gwneud yn dderbyniol a galluogi'r | **Derbyn**<br><br>Cytunir fod 'Adfywio' a 'Cyfraniad arall yr ystyrir sy'n briodol i'r cynnig' yn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | datblygiad fynd yn ei flaen.<br><br>Fodd bynnag, mae'n ceisio cyfraniadau ar gyfer ystod eang o ddibenion posib nad ydynt yn cael eu diffinio'n glir nac yn gysylltiedig â chynllunio, neu nad ydynt o dan reolaeth ymgeisydd neu'n wir y Cyngor i'w cyflawni.<br><br>Mae'r polisi yn methu a bodloni'r rheoliadau CIL a dylid ei addasu'n unol â hynny.<br><br>Felly nid yw'r polisi yn cydymffurfio â Phrawf Cadernid C2 gan nad yw'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a CE2. | engrheifftiau amhenodol a dylent gael eu gadael allan o'r polisi er mwyn osgoi amwysedd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Dileu 'Adfywio' a 'Cyfraniad arall yr ystyrir yn briodol i'r cynnig'. Cynnwys 'Tir y Cyhoedd' a diwygio'r eglurhad ei egluro nad yw'r rhestr yn gyfyngiedig neu'n drwyadl.<br><br>**Newid â Ffocws NF19** |
| 948 | CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760] | Polisi ISA1 | Gwrthwynebu | Mae angen sicrhau fod is-adeiledd Bangor yn medru ymdopi efo'r anheddau ychwanegol. Nid yw'r heolydd, ysgolion, meddygfeydd, system ddwr, system garthffosiaeth, gwasanaethau heddlu, ysbyty, heb son am y mwynderau cyffredinol yn addas ar gyfer y boblogaeth sydd ym Mangor yn barod heb son am ychwanegu mwy atynt. Ni ddylid adeiladu dim os nad oes angen y trigolion fynediad rhwydd i is-adeiledd addas gan gynnwys ysgolion, meddygon, siopau, mwynderau cymunedol. | **Dim yn derbyn**<br><br>Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried sut bydd isadeiledd presennol yn ymdopi ag unrhyw ddatblygiad newydd fel rhan o broses y cais cynllunio yn ddarostyngedig ar Boli ISA a'r Rheoliadau CIL.<br><br>Petai angen isadeiledd ychwanegol mae'r polisi hwn yn caniatáu i gynghorau ofyn am isadeiledd o'r fath fel rhan o'r datblygiad.<br><br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw’r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |
| 1060 | Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] | Polisi ISA1 | Gwrthwynebu | Mae angen pa seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r safleoedd a ddynodwyd, a dangos sut a phryd y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun, ac ystyried p'un oes angen datblygu graddol. Nid yw'n glir a yw Polisi ISA1 yn blaenoriaethu'r seilwaith gofynnol neu ai rhestr yn unig yw hon. Mae'r gwaith ar hyfywedd safle mewn perthynas â'r gallu i gyflawni hefyd yn wan. Dylai'r awdurdod hefyd fedru dangos rhestr flaenoriaeth gyffredinol ynghylch y rhwymedigaethau y bydd yn eu ceisio gan ddatblygiad a baich ariannol rhwymedigaethau o'r fath ynghyd ag effaith hyfywedd. Os nad oes Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn lle, mae perygl bydd bwlch yn y polisi ac yng ngallu'r cynllun i gasglu arian i helpu gyda'r datblygiadau. | **Derbyn yn rhannol**<br><br>Mae Papur Testun 13 'Seilwaith Cymunedol' yn nodi’r isadeiledd presennol a'r hyn sydd yn yr arfaeth yn ardal y Cynllun. Bydd y broses o baratoi'r Papur Testun hwn yn ailadroddus, a chaiff ei adolygu pan dderbynnir gwybodaeth newydd. Mae'r broses o asesu Safleoedd Arfaethedig hefyd wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn ar lefel y safleoedd penodol. Felly, mae'r holl isadeiledd sydd ei angen i gyflawni Strategaeth y Cynllun eisoes wedi'i asesu. Ar hyn o bryd, rhagwelir y daw'r cyllid o fecanweithiau y tu allan i gylch gorchwyl ASC, ac felly ni ragwelir y bydd cyfuno 5 neu ragor o gyfraniadau i gynorthwyo i ddarparu isadeiledd yn broblem. Dyma'r dull a fydd yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd, ond bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro’r sefyllfa. Bydd y Papur Testun sy'n ymwneud ag isadeiledd cymunedol a'r gwaith a wneir i gyfiawnhau'r |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | dyraniadau yn y Cynllun yn ffurfio man cychwyn defnyddio i ystyried a oes angen atodlen ffioedd ASC. Byddai'r ystyriaethau hyn yn cael eu hasesu mewn astudiaeth i ba mor hyfyw fyddai mabwysiadu atodlen ffioedd ASC. Pan fo datblygiadau'n arwain at angen i wella isadeiledd neu greu isadeiledd o'r newydd, megis gwelliannau i briffyrdd, hyrwyddo teithio llesol, cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth, darpariaeth addysg, yr iaith Gymraeg, gwelliannau amgylcheddol neu wella ardaloedd cyhoeddus a mannau agored, fe'u cynhwysir fel rhan o'r datblygiad a rhoddir esboniad manylach yn y Rhwymedigaethau Cynllunio a'r Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig.<br><br>Ni fwriedir i'r rhestr yn y Polisi fod yn gynhwysfawr, na chyfyngu ar y dewisiadau, ond mae'n awgrymu beth yw amrediad yr isadeiledd a allai fod yn angenrheidiol. Ni ystyrir ei bod yn briodol i adnabod a blaenoriaethu'r union ofynion isadeiledd, y gellid eu defnyddio ymlaen llaw i bennu pa fath o gyfraniad fyddai'r datblygwr yn ei ddarparu.Er hyn, ystyrir y gellid gwella dealltwriaeth y darllenydd o'r Cynllun yn sylweddol |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | petai'r wybodaeth am y gofynion isadeiledd yn cael ei nodi. I'r perwyl hwn, bydd papur testun ar anheddiadau yn cynnwys briffiau datblygu fydd yn amlinellu pa isadeiledd fydd yn ofynnol ar gyfer pob safle sydd wedi'i ddynodi a bydd yn nodi a fydd gofyn cyflwyno unrhyw ddatblygiad fesul cam. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pa rwymedigaethau y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn eu ceisio gan ddatblygiad.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio yr esboniad i'r polisi i ddatgan nad yw'r rhestr yn un drwyadl neu gyfyngedig ac i gynnwys cyfeiriad at y papyr testun newydd.<br><br>**Newid â Ffocws NF20** |
| 1173 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | Polisi ISA1 | Cefnogi | Er mwyn sicrhau bod digon o seilwaith yn bodoli ar gyfer datblygiadau domestig, byddwn yn ceisio ateb diffygion trwy wneud buddsoddiad cyfalaf yn ein Cynllun Rheoli Asedau 5 mlynedd. Bydd cael Cynllun Lleol wedi'i fabwysiadu, efo twf wedi'i ddangos ynddo, o gymorth i gryfhau'r achos y gall y | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cwmni ei roi ymlaen o ran prosiectau sydd angen eu hariannu yn y Cynllun Rheoli Asedau. Mae'r fframwaith reoli mae'n rhaid i DCWW weithio tu mewn iddi'n golygu y gallai fod gwahaniaeth rhwng amserlenni ein Cynllun Rheoli Asedau ni a'r Cynllun Datblygu Lleol. Gallai ddigwydd ei bod yn cymryd cyfnod o amser cyn cael prosiect isadeiledd a'r ariannu sy'n gysylltiedig efo fo at ei gilydd a chwblhau'r gwaith. Lle bydd angen gwelliannau penodol yn yr isadeiledd a hynny cyn cael buddsoddiad o'r Cynllun Rheoli Asedau, rydan ni'n cefnogi'r ddarpariaeth o fewn y polisi o geisio cael cyfraniadau ariannol oddi wrth ddatblygwyr er mwyn gwneud y gwelliannau sydd eu hangen. | |
| 109 | CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760] | 7.1.10 | Cefnogi | Dim digon o sylw wedi ei roi i is-adeiledd Bangor wrth adeiladu. Ni allwch adeiladu'r un ty arall ym Mangor heb ystyried is-adeiledd - heolydd, carthffosiaeth, cyflenwad dwr, meddygfeydd, ysgolion, siopau, parciau, heddlu, ysbytai, canolfannau cymunedol a chwarae ayb | **Dim yn derbyn**<br><br>Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried sut bydd isadeiledd presennol yn ymdopi ag unrhyw ddatblygiad newydd fel rhan o broses y cais cynllunio.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw’r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1125<br><br>1126<br><br>1127 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | 7.1.10 – 7.1.12 | Gwrthwynebu | Credir y dylid gwella eglurder y paragraffau hyn. Ychydig o gysondeb sydd yn y termau a ddefnyddir, fel bod y Cynllun yn aneglur yn y disgwyliadau o ran beth mae'r Cynghorau'n ei fwriadu wrth gyfeirio at y "buddion cymunedol".<br>Mae'n ymddangos bod gorgyffwrdd yn y defnydd o'r term yma i gynnwys nifer o gysyniadau:<br>* Rhwymedigaethau Adran 106 (fel y cyfeiriwyd atynt yn PS2).<br>* "cyfraniadau seilwaith cymunedol" (7.1.10) a "darpariaeth seilwaith" (7.1.11)<br>* Rhwymedigaethau cynllunio (7.1.10 a 7.1.11)<br>* Taliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (7.1.10)<br>* "Buddion cymunedol" gwirfoddol a gynigir gan ddatblygwyr.<br>Cynnigir termau a diffiniadau. | **Derbyn**<br><br>Cytunir y dylai'r derminoleg a ddefnyddir yn y polisi fod yn fwy cyson.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio'r polisi yn unol â'r awgrym i sicrhau eglurder a chysondeb.<br><br>**Newid â Ffocws NF20** |
| 121 | Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470] | 7.1.10 | Gwrthwynebu | Achosir dryswch trwy ddefnyddio nifer o dermau sy'n ymddangos eu bod yn gysylltiedig â'r un peth, sef 'seilwaith', 'budd cymunedol' a 'cyfraniadau i seilwaith y gymuned'. Nid oes cyfeiriad at y ffaith bod angen asesu hyfywedd y cynllun er mwyn darparu'r 'buddion cymunedol'.<br><br>Angen geirfa ychwanegol neu baragraff newydd i drafod asesiadau hyfywedd ar gyfer y nifer a'r amrediad o fudd cymdeithasol y | **Derbyn yn rhannol**<br><br>Cytunir y dylid cael mwy o gysondeb o ran y derminoleg a ddefnyddir. Gweler yr ymateb i sylw 1125-1127 uchod.<br><br>O ran y sylw sy'n ymwneud â'r angen i asesu hyfywdra cynllun, gweler yr ymateb i sylw 439.<br><br>Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gofynnir amdano. Defnyddio un gair i ddisgrifio cyfraniadau C106 i osgoi dryswch. | Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pa rwymedigaethau y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu ceisio gan ddatblygiad.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio’r geiriad i wella eglurder a chysondeb gyda’r Rheoliadau.<br><br>**Newid â Ffocws NF20** |
| 1087 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] | 7.1.13 | Gwrthwynebu | Mae Paragraff 7.1.13 o'r Cynllun Adnau'n nodi yr ymgysylltwyd efo Dŵr Cymru / Welsh Water yn ystod paratoi'r Cynllun. Mae CNC'n ymwybodol y gallai fod materion o ran capasiti gwaith Trin Dŵr Gwastraff Treborth, sy'n gwasanaethu Bangor, Y Felinheli, Bethel a rhan o dde Ynys Môn. Gallai hynny gyfyngu ar ddatblygiad yn yr ardaloedd hyn, ac felly rydan ni'n argymell yn gryf y dylid gofyn barn Dŵr Cymru / Welsh Water ar y mater penodol hwn. | **Dim yn derbyn**<br><br>Ymgynghorwyd â Dŵr Cymru wrth ddynodi safleoedd posibl i'w datblygu. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â Dŵr Cymru ynghylch sut gall yr isadeiledd presennol ymdopi â datblygiad fel rhan o broses cais cynllunio.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw’r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |

**ISA2 – Cyfleusterau Cymunedol**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 267 | Ymddiriedolaeth Theatr (Ross Anthony) [2825] | Polisi ISA2 | Cefnogi | Mae Ymddiriedolaeth y Theatrau'n cefnogi'r polisi hwn. Bellach mae'n rhoi datganiad clir ar gyfer gwarchod a gwella eich cyfleusterau cymunedol a diwylliannol hanfodol ac, ynghyd â pholisi ISA1, anogaeth i ddarparu cyfleusterau newydd ac ychwanegol. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 1128 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | Polisi ISA2 | Gwrthwynebu | Ar y cyfan yn cefnogi Polisi ISA2, ond mae angen cydnabod na ddylai'r polisïau fod yn weithredol ar gyfer unrhyw gyfleusterau y gallent gael eu dosbarthu fel cyfleusterau cymunedol y gallent ddod ymlaen tu mewn i gampysau llety gweithwyr fel rhan o'i Strategaeth Llety Gweithwyr. Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA2, fodd bynnag, mae Horizon yn dibynnu ar y polisïau penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd. Rheiny fydd y polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan yn benodol o'r polisïau hyn ei ddatblygiad cysylltiedig (h.y. llety dros dro i weithwyr). | **Dim yn derbyn**<br><br>Bydd unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a nifer o bolisiau eraill y Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |
| 1394 | Cyng/Counc RH Wyn Williams [367] | Polisi ISA2 | Gwrthwynebu | Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried | **Dim yn derbyn** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | y canlynol i Abersoch: Ardal gyda ffin yn cael ei adnabod fel lleoliad Gwasanaethau heb unrhyw gynydd. | Mae'r Polisi yn cydnabod mewn rhai achosion, na fydd modd lleoli ôl-troed cyfleuster cymunedol arfaethedig o fewn y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio. Felly, mae'n darparu rhywfaint o hyblygrwydd rhesymol i leoli unrhyw ddatblygiad cymunedol hanfodol. Mae'r esboniad i'r Polisi yn egluro fod yn rhaid i gynigion sydd y tu allan i anheddiad ddangos mai'r lleoliad arfaethedig yw'r un gorau sydd ar gael, a'i fod yn hygyrch i'r gymuned leol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |
| 1417 | NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] | Polisi ISA2 | Gwrthwynebu | Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisïau Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft<br>Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:-<br>* Byddai'n darparu cyfleusterau cymunedol sy'n diwallu angen lleol | **Dim yn derbyn**<br><br>Nod Polisi ISA2 yw gwarchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd pan fo hynny'n briodol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim newid** |

**ISA3 – Datblygiadau Addysg Bellach ac Uwch**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1129 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI ISA3 | Gwrthwynebu | Mae Horizon yn nodi bod y cyfyngiadau hyn ar ddewis safleoedd o bosibl yn cyfyngu gormod os defnyddir nhw ar gyfer ei ddatblygiad cysylltiedig.<br>Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA3, fodd bynnag, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd, a'r rheiny fyddai'r polisïau perthnasol y bydd ei geisiadau datblygu cysylltiedig yn cael eu penderfynu. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan yn benodol o'r polisïau hyn ei ddatblygiad cysylltiedig (h.y. adeilad efelychydd). | **Dim yn derbyn**<br><br>Bydd unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â'r maes niwclear, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a pholisiau eraill y Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |

## ISA4 – Diogelu Llecynau Agored Presennol

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 110 | CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760] | 7.1.20 | Cefnogi | Ni ddylid adeiladu na dinistrio llecynnau agored presennol o gwbl | **Nodi'r sylw'n cefnogi**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Dim newid |

## ISA5 – Darparu Llecynnau Agored Mewn Datblygiadau Tai Newydd

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 122 | Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470] | Polisi ISA5 | Gwrthwynebu | Mae pwynt 1 yn annerbyniol gan nad oes modd disgwyl i ddatblygwr ddarparu gofod agored oddi ar y safle ar dir nad yw'n berchen arno. Os nad oes modd cael darpariaeth ar y safle yna dylid cymryd cyfraniad oddi ar y safle er mwyn gwella'r cyfleusterau sydd eisoes yn yr ardal ym mhwynt 2. Nid oes cyfeiriad at fabwysiadu/rheoli'r cyfryw ofodau.<br><br>Dylid dileu neu ail-eirio pwynt 1. Mae angen cyfeirio yn y rhinweddau a dangos gyda'r gwybodaeth cefnogol gyda cais cynllunio y gall hyn weithio gyda neu heb lliniaru. Ail-eirio i ganiatau hyblygrwydd. | **Dim yn derbyn**<br><br>Mae Pwynt 1 yn nodi efallai na fyddai darpariaeth oddi ar y safle'n ymarferol mewn rhai amgylchiadau, ac os mai dyma'r achos, dylai datblygwyr gyfrannu tuag at gyfleusterau newydd neu well.<br><br>Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar ddarparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd yn rhoi manylion ynghylch mabwysiadu/rheoli mannau o'r fath.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |
| 304 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | Polisi ISA5 | Gwrthwynebu | Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu gofod agored anffurfiol yn y polisi hwn ac ym mharagraff 7.1.23 ac eraill. Ar adeg pan fo gan bobl ifanc fwy o wybodaeth am faterion amgylcheddol ond sy'n gynyddol â dim cysylltiad uniongyrchol â natur, credwn fod angen darparu cyfleoedd i weld yr awyr agored gyda'ch llygaid eich hun. Trwy gysylltiadau â pholisïau a strategaethau eraill, gall y Cynllun Datblygu Lleol ganiatáu i bobl ifanc ymwneud mwy â'u hamgylchedd gydag enghreifftiau o gadwraeth a chynaliadwyedd ar waith. | **Derbyn**<br><br>Mae Polisi ISA5 yn cyfeirio'n benodol at y gofyn i ddatblygiadau tai o faint penodol i gyfarch yr angen am gyfleon ar gyfer adloniant iach a gweithgareddau hamdden ar gyfer preswylwyr datblygiadau newydd. Derbynnir nad yw'r Polisi yn ddigon clir o ran hwyluso mynediad gwell i fannau agored presennol, mannau gwyrdd ffurfiol nac anffurfiol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Newid maen prawf 2 i gyfeirio at y cyfraniad tuag at wella mynediad i gyfleusterau mannau agored neu lecynnau gwyrdd sydd eisoes yn bodoli.. Mae hyn yn gyson â pholisi PS5, sy'n cynnwys yr angen i wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol o ran ei gyfraniad cymdeithasol.<br><br>**Newid â Ffocws NF22** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1130 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | Polisi ISA5 | Gwrthwynebu | Mae Horizon yn nodi nad ydi'r cyfyngiadau yn y polisi hwn yn briodol ar gyfer ei lety i weithwyr adeiladu dros dro. Er enghraifft byddai'n safon amhriodol i'r bobl fyddai'n debygol o breswylio yno e.e. gweithwyr adeiladu, myfyrwyr mewn llety person sengl dros dro, i fynnu bod angen llefydd chwarae i blant.<br>Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA5, i geisio atal defnyddio'r polisi hwn ar gyfer llety i weithwyr, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig yn benodol o'r polisïau hyn. | **Dim yn Derbyn**<br><br>Bydd unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a nifer o bolisiau eraill y Cynllun gan gynnwys Polisi TAI3.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.<br><br>**Dim newid** |

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

### PS3 – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 533 | Mobile Operators Association (Mr John Cooke) [1638] | POLISI STRATEGOL PS3 | Cefnogi | Rydym yn cefnogi cynnwys Polisi Strategol PS3 yr ydym yn ystyried i fod yn unol â pholisi ac arweiniad cenedlaethol. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim newid** |
| 1415 | NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] | POLISI STRATEGOL PS3 | Cefnogi | Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisiau Rheoli Datblygu yn y Cynllun drafft. Angen cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:<br>* caniatau datblygiad technolegol i hwyluso datblygiad cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig;<br>* cefnogi gweithio o gartref a mesurau a fydd yn gwella'r band eang a chyfathrebu yn yr ardaloedd anghysbell yn arbennig. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>Mae Polisi PS3 yn hwyluso hygyrchedd ardaloedd gwledig drwy gyfrwng technoleg gwybodaeth.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |

## Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd

### PS4 – Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 664 | Mr Noel Davey, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | Polisi Strategol PS4 | Gwrthwynebu | Rydym yn cefnogi'r hierarchaeth drafnidiaeth yn PS4 a pharagraff 7.1.28 sy'n rhoi blaenoriaeth i fynediad trwy gerdded a beicio, er mwyn lleihau'r angen i deithio mewn car preifat. Mae PS4 #3 yn anelu i "wneud ychwanegiadau neu welliannau i'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio er mwyn gwella diogelwch a hygyrchedd trwy'r dulliau teithio hyn". Byddem yn | **Derbyn** – Yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny.<br><br>Credir y byddai'r geiriad ychwanegol yn ychwanegu gwerth at y polisi drwy amlygu budd cerdded a beicio.<br><br>**Argymhelliad –** Cynnwys y diwygiad arfaethedig yn fersiwn ddiwygiedig Polisi Strategol PS4. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ychwanegu "ac i gynyddu buddion iechyd, hamdden, lles a thwristiaeth i drigolion lleol ac i ymwelwyr". Ymddengys bod y strategaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar fynediad ar gyfer prosiectau datblygu newydd, ond dylai hefyd roi sylw i faterion ehangach sy'n ymwneud â'r rhwydwaith hawliau tramwy. | **Newid â Ffocws NF23**<br><br>**Newud Bychan NB3** |
| 1131 | Horizon | Polisi Strategol PS4 | Gwrthwynebu | Mae Horizon yn croesawu'r gofyn yn y polisi bod datblygiad wedi'i leoli er mwyn lleihau gymaint ag y bo modd ar yr angen i deithio. Mae hyn yn cefnogi rhan gyntaf yr ymgynghori gan Horizon cyn gwneud cais, sydd wedi seilio'r gwaith o ddewis safleoedd ar gyfer llety ar (ymysg ffactorau eraill) agosrwydd ar safle'r Wylfa.<br>Mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau ar y safle yn cefnogi ymhellach y ffordd yma o weithredu, lle mai ystyriaeth eilaidd ydi'r cysylltiad efo aneddiadau eraill sy'n bodoli'n barod. Mae gwelliant Horizon yn ceisio tynnu ymaith y cysylltiad, fel na fydd gwelliannau rheilffordd sy'n dod efo'r prosiect hwn yn cael eu cysylltu efo'r polisi'n benodol ar seilwaith rheilffordd. Mae Horizon wedi egluro bod rhaid i welliannau seilwaith sy'n ofynnol fod yn | **Derbyn yn rhannol** – Cytuno gyda'r sylw, a bod angen newid y testun yn unol â hynny. Fodd bynnag byddai diwygio'r polisi gyda chyfeiriad at brofion penodol o fewn y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi. Rhoddir sylw i'r mater hwn yn y cyflwyniad i bolisi PS2 Seilwaith a Chyfraniadau Datblygwyr.<br><br>**Argymhelliad** – Diwygio'r geiriad mewn perthynas â gwelliannau sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd a chyfeiriad at rwymedigaethau Adran 106.<br><br>**Newid â Ffocws NF23** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | rhai mae angen amdanynt yn unol efo'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol. | |
| 148 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited | Polisi Strategol PS4 | Gwrthwynebu | Wedi nodi Bodychain, Llanllyfni fel ardal chwilio a ffefrir am dywod a gro dan Bolisi MWYN3, gellid defnyddio'r safle peiriannau presennol yng Nghefn Graianog pe bai'r ardal hon yn profi'n fasnachol hyfyw ac y ceid caniatâd cynllunio, ond byddai angen cysylltiad dan y llwybr troed/beicio presennol. Fel y cyfryw, efallai y byddai rhai yn ystyried na fyddai hyn yn gwella'r llwybr troed/beicio.<br><br>Yn pwynt 3 dechrau efo "Ble yn bosib diwygio a gwella...." | **Derbyn** – Yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny.<br><br>Teimlir bod y geiriad ychwanegol yn ychwanegu hyblygrwydd at Bolisi Strategol PS4.<br><br>**Argymhelliad** – Ychwanegu'r geiriad ychwanegol at Bwynt 3 ym Mholisi Strategol PS4.<br><br>**Newid â Ffocws NF23** |
| 448 | Bourne Leisure Ltd | Polisi Strategol PS4 | Gwrthwynebu | Ystyrir dylid ychwanegu'r frawddeg canlynol i PS4: "Mewn ardaloedd gwledig, mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes dewis amgen i deithio efo car preifat." | **Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.<br><br>Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Yn paragraff 4.7.7 o PCC ceir cyfarwyddyd y dylid lleoli'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau hynny sy'n gymharol hygyrch drwy ddulliau heblaw ceir. Mae strategaeth ofodol y Cynllun yn seiliedig ar yr egwyddorion yn paragraff 4.7.7 o PCC.<br><br>**Argymhelliad –** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 527 | Cymdeithas Dinesig Bangor | Polisi Strategol PS4 | Cefnogi | PS4 - Trafnidiaeth Cynaladwy | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 617 | Mr Mark Roberts, Barton Willmore, Cardiff | Polisi Strategol PS4 | Gwrthwynebu | Cefnogi nodau ac amcanion y polisi, fodd bynnag ni yw'r datganiad "caiff datblygiad ei leoli i leihau'r angen i deithio" yn adlewyrchu PCC. Yn hytrach mae PCC yn cyfeirio tuag at "lleihau'r angen i deithio a chynyddu hygyrchedd trwy ddulliau heblaw'r car preifat" (paragraff 4.7.4) a dim lleihau'r angen i deithio yn unig. Oherwydd hyn mae'r polisi yn rhy anhyblyg, ddim yn hyrwyddo darpariaeth positif a ddim yn adlewyrchu gallu bysiau, beiciau a chysylltiadau cerdded i gynnig mynediad cynaliadwy a chyfleus i wahanol wasanaethau. | **Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.<br><br>Teimlir bod y polisi yn adlewyrchu dyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran lleihau'r angen i deithio tra yn ceisio cael gwelliannau trafnidiaeth fydd yn cynyddu mynediad i pob math o ddull trafnidiaeth.<br><br>**Argymhelliad –** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 1280 | Bourne Leisure | Polisi Strategol PS4 | Gwrthwynebu | Dylai polisïau trafnidiaeth newydd adnabod, oherwydd lleoliadau sawl cyfleuster ac atyniad twristiaeth, yn aml nid oes opsiwn dichonadwy arall ar gael heblaw am ddefnyddio car preifat i gyrraedd rhai datblygiadau twristiaieth. Mae Bourne Leisure wedi siomi fod PS4 yn methu â chydnabod fod rhai | **Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.<br><br>Gallai'r datganiad hwn gael ei ddehongli fel hyrwyddo'r defnydd o geir preifat. Mae hyn yn groes i ddyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran y defnydd o drafnidiaeth. Yn unol â pharagraff 3.11 o TAN 18 sy'n cyfeirio at ymgorffori |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | safleoedd twristiaeth wedi'u lleoli mewn ardaloedd cefn gwlad ble nad oes cludiant cyhoeddus yn bodoli. Nid yw PS4, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn gadarn ac nid yw'n unol â pholisi cenedlaethol. Mae TAN18: Trafnidiaeth (Mawrth 2007) yn benodol yn adnabod fod rhai datblygiadau twristiaeth yn ddibynnol ar deithio mewn car ac yn cynghori: "..mewn ardaloedd gwledig mae angen cydbwyso diffyg mynediad i gludiant cyhoeddus yn erbyn y cyfraniad y mae twristiaeth yn ei wneud i'r economi wledig yn yr ardal benodol..." (para. 3.15) Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylid ychwanegu'r frawddeg hon i PS4: "mewn ardaloedd gwledig, mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes llawer o ddewis ond defnyddio car preifat i deithio." | egwyddorion cynaliadwyedd, mae'r Cynlun yn ceisio sicrhau y dylai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau gael eu lleoli mewn mannau sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o ddulliau teithio.<br><br>**Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

**TRA1 – Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1091 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Polisi TRA1 | Gwrthwynebu | Mae'r Cynllun yn rhoi amlinelliad o 4 cynllun cludiant fydd yn digwydd yn ystod cyfnod y Cynllun, yn cynnwys | **Dim yn derbyn** – Fel rhan o'r Broses Gynllunio ymgynghorir ag ymgyngoreion statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai cynnwys |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ffordd osgoi'r A487 Caernarfon i Bontnewydd, Ffordd Gyswllt Llangefni, darpariaeth newydd i groesi'r Fenai a gwelliannau ar yr A5025 o'r Fali i Wylfa Newydd. Byddai ANC yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn rhan o'r trafodaethau ar y cynlluniau arfaethedig yma mor fuan ag y bo modd, er mwyn gweld beth ydi'r cyfyngiadau allweddol ar ddatblygiad a chael darparu cyngor. Mae ANC wedi darparu cyngor Cwmpasu yn barod ar y cynlluniau sydd wedi'u henwi uchod. | cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi.<br><br>**Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 1132 | Pwêr Niwclear Horizon | Polisi TRA1 | Gwrthwynebu | Mae camgymeriad teipio yn 2. (ii) a (iii) lle yn y ddau achos dylid newid "facilitates" i ddarllen fel "facilities". (Nid ydi hyn wedi'i ddangos yn y newidiadau penodol y gofynnir amdanynt). Cynigiwyd newidiadau i 3(i) er mwyn eglurder, yn cynnwys dod â'r tabl i mewn i'r polisi er mwyn bod yn eglur ar ba ddatblygiad byddai hyn yn effeithio. Mae 3(ii) newydd wedyn yn codi o ail gangen y testun presennol (ar ôl y tabl). Gofynnir am newidiadau i 4(iii) i sicrhau nad oes unrhyw awgrym bod y Cynllun yn penderfynu ymlaen llaw ar yr asesiadau effaith amgylcheddol mae Horizon yn eu gwneud ac y dylai'r angen am welliannau i'r seilwaith cludiant fod yn deillio | **Derbyn yn rhannol** – Bydd y gwallau sillafu yn cael eu cywiro.<br><br>Cytuno y byddai adran 3 o’r polisi yn elwa o fân ailddrafftio i wella eglurder. Fodd bynnag, teimlir ei bod yn fwy priodol cadw'r tabl ym mharagraff 7.1.31.<br><br>Mae’r rhestr yn rhan 4 o polisi TRA 1 yn adnabod cynlluniau cudiant mae’r Cynllun yn ceisio ei warchod trwy eu dangos ar y mapiau cynigion. Yng ngoleuni sylwadau Horizon bod gwaith asesu effaith amgylcheddol ar gyfer yr angen am welliannau i’r seilwaith cludiant yn cymryd lle ar hyn o bryd ynsa dylai cyfeiriad tuag at rhain, ynghyd ar map cynigion ohonynt, gael ei tynnu allan o polisi TRA 1. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ohonynt. | **Argymhelliad** – Diwygio adrannau 3 a 4 (iii) i wella eglurder.<br><br>**Newid â Ffocws NF24** |
| 1133 & 1134 | Pwêr Niwclear Horizon | Paragraffiau 7.1.30 i 7.1.44 | Gwrthwynebu | Yn ymwneud efo'r sylwadau ar TRA1, darparwyd geiriad newydd i fynd yn lle'r paragraff 7.1.41 presennol, er mwyn osgoi pennu ymlaen llaw ac i gyfeirio at ddatblygiad Strategaeth Traffig a Chludiant Integredig Horizon. Mae Horizon yn cefnogi cynnwys datganiad wedi'i eirio'n addas i gefnogi ei fod yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Cynghorau i ddatblygu Strategaeth Traffig a Chludiant Integredig wedi'i chytuno ar gyfer y Prosiect, i gael ei chefnogi trwy bolisi TRA1. | **Derbyn** – Cytuno i arall-eirio'r teitl cyn paragraff 7.1.41 a pharagraff 7.1.44 i ddangos lle'r amlygwyd angen i uwchraddio'r seilwaith trafnidiaeth.<br><br>Eisoes ceir cyfeiriad at Gynlluniau Teithio ym mharagraffau 7.1.30 a 7.1.32, fodd bynnag mae'r ymateb blaenorol wedi cytuno i gynnwys cyfeiriad at gynlluniau teithio ym mholisi TRA 1.<br><br>**Argymhelliad** – Diwygio'r teitl i baragraff 7.1.41 a pharagraff 7.1.44.<br><br>**Newid â Ffocws NF25**<br><br>**Newid Bychan NB2** |
| 1185, 1186, 1187 | Dwr Cymru | Polisi TRA1 | Gwrthwynebu | Mae'r llwybr arfaethedig yn mynd dros asedau DCWW mewn nifer o lefydd (yn garthffosydd cyhoeddus a phrif bibelli dŵr). O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau | **Dim yn derbyn** – Fel rhan o'r Broses Gynllunio ymgynghorir ag ymgyngoreion statudol fel Dŵr Cymru Welsh Water. Byddai cynnwys cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi.<br><br>**Argymhelliad –** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led penodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased. | gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 525 | Cymdeithas Dinesig Bangor | Polisi TRA1 | Gwrthwynebu | TRA1: Rhwydweithiau Cludiant 4) 'Cynlluniau Cludiant' - nid oes unrhyw sôn am gynigion rheilffordd. | **Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.<br><br>Mae diogelu rheilffyrdd presennol wedi ei gynnwys yn TRA3.<br><br>**Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 876 | Mr John Tripp, Porthaethwy | Polisi TRA1 | Gwrthwynebu | * gormod o bwyslais ar geir,<br>* llwybrau beic sydd i'w gweithredu (ddim yn ddigon positif);<br>* rheilffyrdd a bysiau. Rheilffordd drydan - fel rhan o estyniad yr HS3 Caergybi i Hull. | **Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.<br><br>Teimlir bod Polisi TRA1 yn cydymffurfio â dyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran y defnydd o drafnidiaeth.<br><br>**Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 1055 | Mr Mark | Polisi TRA1 | Gwrthwynebu | Gallai'r dyraniadau tir olygu colli tua 40 | **Dim yn derbyn** – Mae'r tir a nodir ym mholisi |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Newey, Llywodraeth Cymru | | | hectar o'r Tir Gorau a Mwyaf Hyblyg am byth. Mae mwyafrif y tir wedi'i gynnwys yn nyraniadau TRA1, C14 a C15 a phrin yw'r dystiolaeth yn y cynllun i ddangos bod paragraff 4.10 wedi cael ei ystyried o gwbl wrth ddyrannu'r safleoedd hyn ar gyfer datblygu. | TRA 1 yn gynlluniau gwella priffyrdd a nodwyd fel llwybrau sydd angen eu diogelu o fewn y cynllun.<br><br>Cydnabyddir bod ffordd gyswllt Llangefni yn croesi tir amaethyddol o ansawdd uchel yng nghyffiniau Llangefni, fodd bynnag, mae gan y cynnig hwn fudd caniatâd cynllunio o dan 34LPA1013/FR/EIA/CC. Felly, aseswyd colli tir amaethyddol o ansawdd uchel fel rhan o'r cais.<br><br>Byddid wedi ymgynghori â phob corff perthnasol ynglŷn â'r holl ddatblygiadau a amlygwyd ym Mholisi TRA1, a byddai colled barhaol o dir amaethyddol o ansawdd uchel wedi cael ei drafod ar adeg y cam ymgeisio.<br><br>**Argymhelliad** – Dim newid i Bolisi TRA1.<br><br>**Dim newid** |
| 683 | Barton Willmore | 7.1.31 | Gwrthwynebu | Mae paragraffiau 7.1.31 a 7.1.32 yn cynnwys sylwebaeth eang am yr gofyniad a'r angen am Asesiadau Trafnidiaeth, ond yn dyblygu Polisi Cynllunio Cymru. Mae hyn yn ddianghenraid. | **Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.<br><br>Mae paragraffau 7.1.31 a 7.1.32 yn darparu cyd-destun i Bolisi TRA1.<br><br>**Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim newid** |
| 530 | Cymdeithas Dinesig Bangor | 7.1.37 | Gwrthwynebu | Rhwydwaith Traws Ewrop E22 - Mae angen eglurhad o pu'n a yw Pont Britannia a rhannau o ogledd Cymru dal yn rhan o E22. | **Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.<br><br>Teimlir bod paragraff 7.1.37 yn egluro bod yr A55 ar yr E22.<br><br>**Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 877 | Mr John Tripp, Porthaethwy | 7.1.37 | Gwrthwynebu | Croesfan ar draws y Fenai - beth am roi twnnel o dan y Fenai o Griffiths Crossing? Ydych chi wedi meddwl am:<br>* ddefnyddio dwy lôn i groesi ar yr A55, i'w cyfnewid rhwng naill ochr y ffordd a'r llall<br>* nid yw'r dec rheilffordd o dan yr A55 ond yn cael ei ddefnyddio 50% o'r amser. | **Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.<br><br>Mae opsiynau ar drydedd bont dros Afon Menai yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ond hyd yma nid oes penderfyniad ffurfiol wedi ei wneud.<br><br>**Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 512 | Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol | 7.1.42<br><br>(Polisi TRA1) | Cefnogi | Bydd angen ymgynghoriad ffurfiol ar y gwelliannau hyn gan ei bod yn bosib y gallai rhai o'r ardaloedd hyn gael effaith | **Dim yn derbyn** Fel rhan o'r broses Gynllunio ymgynghorir ag ymgyngoreion fel Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwynedd | | | ar yr adnodd archeolegol. | Byddai cynnwys cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi.<br><br>**Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

**TRA2 – Safonau Parcio**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1096 | Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru | Polisi TRA2<br><br>(pararaff 7.1.45) | Gwrthwynebu | Dylid nodi bod Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod datblygiadau newydd yn darparu lefelau is o ofod parcio na'r hyn a wnaed yn y gorffennol. Mae TAN 18 yn datgan y dylid defnyddio uchafswm safonau parcio ceir fel ffordd o reoli'r galw. | **Derbyn** – Rydym yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny.<br><br>Rhoddir cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 18 ym mharagraffau esboniad 7.1.45 a 7.1.46.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Gwneud newidiadau i baragraff 7.1.45 yn seiliedig ar y sylwadau a gyflwynwyd. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Newid â Ffocws NF26** |

## TRA3 – Diogelu Rheilffyrdd Segur

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 161 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited | Polisi TRA3 | Gwrthwynebu | Fel gyda Pholisi PS4, wedi nodi Bodychain, Llanllyfni fel ardal chwilio a ffefrir am dywod a gro dan Bolisi MWYN3, gellid defnyddio'r safle peiriannau presennol yng Nghefn Graianog pe bai'r ardal hon yn profi'n fasnachol hyfyw ac y ceid caniatâd cynllunio ond byddai angen cysylltiad dan y llwybr troed/beicio presennol.<br><br>Cynnig ail eirio a dyfynnu: "Ble yn briodol a hyfyw dylid hyrwyddo ac annog y posibilrwydd o ail agor isadeiledd segur rheilffyrdd ar gyfer defnydd fel rheilffordd neu bwrpas trafnidiaeth arall." | **Derbyn** – Rydym yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny.<br><br>Teimlir y dylid ychwanegu geiriad ychwanegol at y polisi, yn hytrach na disodli'r geiriad gwreiddiol, gan ei fod yn ychwanegu gwerth at amcan cynaliadwyedd y polisi. Fodd bynnag, dylid cadw'r geiriad gwreiddiol, oherwydd mae'n bwysig peidio ag annog datblygiadau a allai atal ailagor seilwaith rheilffordd segur neu nas defnyddir.<br><br>**Argymhelliad –** Gwneud newidiadau i Bolisi TRA3 yn seiliedig ar y sylwadau a gyflwynwyd.<br><br>**Newid â Ffocws NF27** |
| 440 | Cyngor Tref Ffestiniog | Polisi TRA3 | Cefnogi | Gobeitihio y gall Cyngor Gwynedd helpu i ddatrys y broblem hon. | **Nodi'r sylwadau cefnogol**<br><br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim newid** |

**TRA4 – Rheoli Ardrawiadau Cludiant**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 150<br><br>151 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]<br><br>Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | Polisi TRA4 | Gwrthwynebu | Ystyrir bod y polisi'n rhy gaeth ac nid yw'n caniatáu cyfle ar gyfer gwaith lliniaru posib trwy rwymedigaethau ac amodau cynllunio. Dylid ymdrin â phob cais yn ôl ei haeddiant a dylai ddangos trwy wybodaeth gysylltiedig gyda chais cynllunio y gall weithio gyda gwaith lliniaru neu hebddo.<br><br>Diwygio'r geiriad i er caniatau hyblygrwydd. | **Derbyn** – Yn cytuno â’r sylw, a bod angen diwygio’r testun yn unol â hynny.<br><br>Bydd y diwygiad a awgrymir yn ychwanegu hyblygrwydd at y polisi.<br><br>**Argymhelliad** –<br><br>Ychwanegu brawddeg ychwanegol at y polisi, er mwyn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd pellach wrth benderfynu ar geisiadau.<br><br>**Newid Bychan NB3** |
| 598 | Mr Mark Roberts, Cardiff | Polisi TRA4 | Gwrthwynebu | Rydym ym pryderu nad yw'r prawf "ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd..." yn un manwl gywir ac nad yw wedi'i baratoi'n bositif. Nid oes unrhyw sôn yn y polisi am yr hyn a ystyrir yn "annerbyniol". Bydd y datblygiad yn effeithio ar rwydweithiau | **Derbyn yn rhannol –** Cytuno y dylid diwygio’r Rhestr Termau i esbonio sut fath o ddatblygiad fuasai yn cael ei ystyried yn annerbyniol o fewn gwahanol bolisïau yn y Cynllun.<br><br>Dim yn cytuno efo’r newidiadau a cynigiwyd ar gyfer ‘effaith gweddilliol difrifol/arwyddocaol annerbyniol...’ gan y gall hyn alluogi datblygiad |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | priffyrdd drwy gynyddu traffig. Yn ogystal, nid yw'r polisi yn ystyried gallu cynigion datblygu i leddfu neu leihau effeithiau ar y rhwydwaith.<br>Newid: Ystyriwn y dylai'r polisi ddatgan mai datblygiadau fyddai'n peri "effaith weddilliol annerbyniol ddifrifol/sylweddol" yw'r prawf gofynnol. | a fuasai'n effeithio ar weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynnwys cyfeiriad i annerbyniol yn y Rhestr Termau.<br><br>**Newid â Ffocws NF111** |
| 529 | Cymdeithas Dinesig Bangor | Polisi TRA4 | Gwrthwynebu | TRA4: Ardrawiadau cludiant. Dileu 'fel sy'n briodol'. Dylid sicrhau darpariaeth ddiogel i'r grwpiau hyn pob amser. | **Derbyn yn rhannol** – Pwrpas y geirfa yn y polisi oedd i adlewyrchu nad oedd darpariaeth ar gyfer pob dull o deithio ddim yn berthnasol efo pob math o geisiadau. Fodd bynnag, cytunir bod y trem 'ble bo'r angen' ychydig yn gamarweiniol.<br><br>Yng ngoleuni hyn cynigir newid i 'Ble yn briodol' a bydd hyn yn golygu bod y polisi yn unol a'r eglurhad ym mharagraff 7.1.51 sydd yn cyfeirio tuag at mesurau sy'n briodol i gynnig penodol.<br><br>**Argymhelliad** – Gwneud newidiadau i Bolisi TRA4 i ddarllen 'Ble yn briodol' .<br><br>**Newid Bychan NB3** |
| 1835 | Mr Noel Davey, | Polisi TRA4 | Gwrthwynebu | Mae'r polisi yn eithaf gwan ac yn rhoi | **Dim yn derbyn –** Pwrpas polisi TRA 4 yw i |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Council for the Protection of Rural Wales | | | sylw brysiog o ymrwymiadau cynllunio i hawliau tramwy cyhoeddus. Dylid cael geirfa yn y CDLl ar y cyd yn debyg i’r hyn oedd yn polisi CH22 o’r CDU Gwynedd ‘Rhwydwaith Beicio, Llwybrau a Hawliau tramwy’ yn rhoi ymrwymiad fwy manwl a phenodol i warchod a hybu y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Dylai’r CDLl ar y cyd gydnabod eu pwysigrwydd i’r economi ymwelwyr, budd hamdden, iechyd cenedlaethol a lles efo pwyslais chryf ar warchod a hybu y Llwybr Arfordirol Cenedlaethol. | sicrhau bod datblygiad newydd yn creu darpariaeth diogel a chyfleus ar gyfer pob dull o deithio ble bod hyn yn briodol.<br><br>Mae polisi PS4 yn cyfeirio tuag at yr angen i ychwanegu a gwella rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio a teimlir bod hyn yn rhoi cefnogaeth ddigonol i llwybrau cyhoeddus yn y Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |